# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul ar 12 Rhagfyr 2011**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 12 December 2011**

**Yn Bresennol/Present**: Cyng/Cllr Tom Cowcher Mrs Eileen Curry (Chair/Cadeirydd) Beth Davies Douglas Davies Peter Davies Keith Evans Terry Griffiths Andrew Howell and Mrs Carolyn Reed-Rees

1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies were received from:- Cyng/Cllrs Wyn Evans, Mrs Philippa Davies, Philip Marchant. Cyng/Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees - cafwyd ymddiheuriad ymlaen llaw am gyrraedd yn hwyr/apology was received beforehand for arriving late).

2 **Datgelu Buddiannau Declarations of Interest:** Cllr Peter Davies – Eglwys Tregroes Church, Cllr Beth Davies – Eglwysi Tregroes a/and Capel Dewi Churches. Cllr Andrew Howell – Ieuenctid Tysul Youth (ond ni adawodd yr ystafell/ but did not leave the room).

3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2011 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd/Minutes of monthly meeting held on 14 November 2011 were accepted as correct and signed by the Chair.

4 **Materion yn Codi** – 3 Ciosg Coch – cafwyd adroddiad gan Gyng Mrs Eileen Curry ynghylch y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar ym Mhren-gwyn, a nodwyd bod cynnydd yn cael ei sicrhau. Mae Ciosg Capel Dewi yn Adeilad Rhestredig a gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i gymeradwyo cais newid defnydd ar ei gyfer. Er gwybodaeth, adroddodd Cyng Keith Evans bod y Cynulliad wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi'r Ysgol 3-19 yn Llandysul. Cynhelir Gwasanaeth Carolau Hen Gapel Llwynrhydowen ar 24 Rhagfyr 2011.

5 **Rhoddion –** Datgeliadau yn unol ag eitem "2" uchod.

a) **Lleisiau Bro Eirwyn** – Piano Trydan – Penderfynwyd gofyn a oes unrhyw Gynghorau Cymuned eraill wedi cyfrannu ac a fyddai modd i sefydliadau eraill fenthyca'r Piano yn ôl yr angen.

b) **Ieuenctid Tysul Youth** – Bydd yr eitem hon yn aros ar yr Agenda.

4 **Matters Arising** – 3 Red Kiosks – Cllr Mrs Eileen Curry gave a report of the public meeting recently held at Prengwyn and progress is being made. Capel Dewi Kiosk is a Listed Building and it was unanimously approved for an application of change of use to be made. For information purposes Cllr Keith Evans reported that the Assembly has confirmed their support for the 3-19 School at Llandysul. Hen Gapel Llwynrhydowen (Chapel) Carol Service is to be held on 24 December 2011.

5 **Donations -** Declarations as in "2" above.

a) **Lleisiau Bro Eirwyn** (choir) – Electric Piano – It was decided to enquire whether other Community Councils have donated and whether it would be possible for other organisations to borrow the Piano should the need arise.

b) **Ieuenctid Tysul Youth** – To remain on the Agenda.

c) **<u>Eglwys Tre-groes Church</u>** – (gofynnwyd am £5,000). Atgoffwyd y Cyngor gan y Clerc o'r ffaith bod gennym 9/10 o Eglwysi/Capeli yn y Gymuned. Mae Capel Pantydefaid wedi cael £1,200. Mae Eglwys Capel Dewi wedi cael £1,000. Cafwyd gwybodaeth am y gwaith arfaethedig yn Nhre-groes erbyn hyn. Yn unol â chymeradwyaeth ar gyfer y gwaith i'w gyflawni, sef y weithdrefn arferol, cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid rhoi £3,000, eiliwyd hyn gan Gyng Douglas Davies ac fe'i dderbyniwyd.
(Cyrhaeddodd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees)
d) **<u>Neuadd Pont-siân Hall</u>** – (gofynnwyd am £10,000) Bydd yr eitem hon yn aros ar yr Agenda.
e) **<u>Eglwys Pont-siân Church</u>** – (gofynnwyd am £10,000) Cafwyd ffurflen wedi'i llenwi a gwybodaeth fanwl. Anfonir llythyr yn nodi y byddwn yn ystyried y mater ar ôl iddynt gadarnhau'r swm y byddant yn ei gael gan eraill.
f) Bydd **<u>Eisteddfod Llangollen</u>**, **<u>Bobath Cymru</u>** a **<u>Shelter Cymru</u>** yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod ym mis Mawrth, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
g) Cafwyd **<u>cydnabyddiaeth derbyn rhodd</u>** wrth <u>Llandysul a Phontweli Ymlaen</u> ac <u>Apêl y Pabi Llandysul</u>. Roedd <u>Canolfan Ddŵr Llandysul Aqua Centre</u> yn cydnabod eu bod wedi cael cyfran o'r taliad, a gofynnwyd am gadarnhad ynghylch y dyddiad cau ar gyfer y gweddill. Bydd ymholiad yn cael ei wneud ynghylch eu hamserlen.
h) Anfonwyd **<u>ffurflenni ymgeisio am Grant</u>** ymlaen at <u>Ofal Canser Marie Curie</u> a <u>Home Start</u>. Penderfynwyd gofyn am bosteri er mwyn denu sylw gwirfoddolwyr posibl ar gyfer Home Start.
**6 <u>BDO</u>** – Cafwyd <u>Hysbysiad ynghylch Cwblhau Archwiliad</u> ac yn ôl y gofyn, cymeradwywyd y cyfrifon unwaith eto gan y Cyngor, a hynny'n unfrydol. Bydd y datganiad blynyddol a'r Hysbysiad ynghylch cwblhau archwiliad yn cael eu harddangos am 14 diwrnod nawr. Cafwyd nodyn yn gofyn am y ffi o £342.00 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

c) **<u>Eglwys Tregroes Church</u>** – (£5,000 requested).The Clerk reminded the Council that we have 9/10 Churches/Chapels in the Community. Pantydefaid Chapel have received £1,200. Capel Dewi Church £1,000. Information has now been received regarding the proposed work at Tregroes. Subject to the approval of the work carried out, being the usual procedure, Cllr Keith Evans proposed £3,000, this was seconded by Cllr Douglas Davies and carried.
(Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees arrived)
d) **<u>Neuadd Pontsian Hall</u>** – (£10,000 requested) To remain on the Agenda.
e) **<u>Eglwys Pontsian Church</u>** – (£10,000 requested) Completed form was received with detailed information. Letter to be sent informing that we will consider the matter after they confirm the sum being received from others.
f) **<u>Llangollen Eisteddfod</u>**, **<u>BobathWales</u>** and **<u>Shelter Cymru</u>** are to be discussed at the March meeting being the end of the financial year.
g) **<u>Acknowledgement of receipt of donations</u>** were received from <u>Llandysul a Phontweli Ymlaen</u> and <u>Llandysul Poppy Appeal</u>. <u>Canolfan Dŵr Llandysul Aqua Centre</u> acknowledged receipt of the part payment and enquired as to the deadline for the remainder. Enquiry re their timetable to be made.
h) **<u>Grant application forms</u>** have been forwarded to <u>Marie Curie Cancer Care</u> and <u>Home Start</u>. It was decided to request posters for attention of possible volunteers for Home Start.
**6 <u>BDO</u>** – <u>Notice of Conclusion of Audit</u> was received and as requested the accounts were again unanimously approved by the Council. The annual return and Notice of conclusion of audit now to be displayed for 14 days. Fee note in the sum of £342.00 was received and passed for payment.

**7 Dyfynbrisiau ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw ac ar Lwybrau Troed** – Cafwyd llythyr gan Profix yn ymddiheuro am y ffaith y bu oedi cyn cyflawni'r gwaith.
i) Torri prysgwydd ar Lwybrau Troed – Cafwyd dyfynbrisiau gan Pro-Fix a Meredith Williams. Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i dderbyn y dyfynbris isaf, sef Pro-Fix.
ii) Gwaith Cynnal a Chadw – Cafwyd dyfynbrisiau gan Pro-Fix a Meredith Williams. Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i dderbyn y dyfynbris isaf, sef Meredith Williams.
**8 Biniau Halen/Graean** – adroddodd Cyng Andrew Howell bod y biniau yn barod i gael eu lleoli. Bydd Biniau Graean yn cael eu hychwanegu i'n polisi yswiriant, ond ni fydd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am ledaenu'r graean, ac fe fydd yno i gynorthwyo'r cyhoedd ar eu menter eu hunain. Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y bydd Cynghorwyr Keith Evans a Tom Cowcher yn trefnu bod y graean yn cael ei gasglu ac y bydd gorchudd/tarpolin yn cael ei brynu, y bydd y Cyngor yn talu amdano. Bydd graean ar gael i'r cyhoedd ei brynu.
**9** a) Cafwyd y canlynol wrth **Geredigion**:- Cafwyd gwybodaeth am brosiect Caeau Bach. Cafwyd gwybodaeth ynghylch Balchder Pentrefi**,** a byddwn yn parhau i geisio trefnu ymweliad**.** Cais am Oddefeb **–** rhoddwyd goddefeb i Gyng Keith Evans siarad, ond nid i bleidleisio, ynghylch ceisiadau am gymorth ariannol gan y sefydliadau canlynol, Ysgol Gynradd Llandysul, Ysgol Dyffryn Teifi, Pwll Nofio Llandysul, Parc Coffa, Padlwyr Llandysul, Y Pwerdy, Llandysul a Phontweli Ymlaen a'r Ganolfan Deuluol.
b) **ULlC –** Cafwyd gwybodaeth am y Diwrnod Ymwybyddiaeth Ewropeaidd ynghylch Gwrthfiotigau, Materion yn ymwneud â Hyfforddiant, Crynodeb o'r Ymateb i Adolygiad Llywodraeth Cymru ynghylch Cerddwyr, Arolwg i Gynghorau Lleol gan yr Arolwg Ordnans, Rhwydweithiau Ymarferwyr Dyfodol Cynaliadwy – Cyfarfod Cenedlaethol, Rheolau Sefydlog Model a Phenodi Hyrwyddwyr Hyfforddiant. Bydd Rheolau Sefydlog yn cael eu cynnwys ar yr agenda nesaf.

**7 Quotes for Footpaths and Maintenance Work** – Letter of apology was received from Profix for the delay in carrying out work.
i) Brush cutting Footpaths – Quotes were received from Pro-Fix and Meredith Williams. It was unanimously decided to accept the lower quote being Pro-Fix.
ii) Maintenance Work – Quotes were received from Pro-Fix and Meredith Williams. It was unanimously decided to accept the lower quote being Meredith Williams.
**8 Salt/Grit Bins** – Cllr Andrew Howell reported that the bins are ready to be sited. Grit Bins to be added to our insurance cover but, the Community Council will not be responsible for the dispersing of grit and will be there to assist the public at their own risk. It was unanimously decided that Cllrs Keith Evans and Tom Cowcher will arrange for collection of grit and purchase a cover/tarpaulin which is also to be paid for by the Council. Grit is to be made available for the public to purchase.
**9** a) The following were received from **Ceredigion**:- Information was received re Caeau Bach project. Information was received re Balchder Pentrefi**,** we will continue to try and arrange a visit**.** Application for Dispensation **–** Cllr Keith Evans has been granted dispensation to speak but not vote in respect of requests for financial support from the following organisations Llandysul Primary School, Dyffryn Teifi School, Llandysul Swimming Pool, Memorial Park, Llandysul Paddlers, The Powerhouse, Llandysul a Phontweli Ymlaen and Family Centre.
b) **OVW** – Information was received re European Antibiotics Awareness Day, Training Issues, Summary of Response to Welsh Government Walker Review, Ordnance Survey Local Councils Survey, Sustainable Futures Practitioners Networks – National Meeting, Model Standing Orders and Appointment of Training Champions. Standing Orders is to be placed on the next agenda.

c) **Dŵr Cymru Welsh Water** – Cafwyd llythyr yn ein hysbysu o'r ffaith nad oes Cynllun Carthffosiaeth ar gyfer Maesymeillion ar y gweill ar hyn o bryd. Efallai y bydd modd i breswylwyr ofyn am garthffos, ond y byddai'r gost rhwng £3,000 a £10,000 ar gyfer pob cartref unigol a fyddai'n dymuno ymuno.
d) **Llywodraeth Cymru** – cafwyd Dogfen Ymgynghori Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2012 Ymlaen. Bydd Cyng Andrew Howell yn bwrw golwg ar y rhain.
e) **Banc Lloyds –** Cafwyd siec am y swm o £4.04 ac fe'i talwyd i mewn i Fanc Nat West. Cafwyd cadarnhad o'r ffaith bod y cyfrif wedi cael ei gau nawr.
f) Bydd **Banc Nat West** ar agor ar ddydd Mawrth a dydd Gwener yn unig o'r 20fed o fis Chwefror. Cafwyd gwybodaeth ynghylch y gallu i weld y balans ar-lein, ond heb y gallu i wneud trafodion. Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylai fod modd i'r Clerc a'r Gwiriwr Mewnol allu manteisio ar hyn; eiliwyd hyn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i derbyniwyd.
g) **Tai Canolbarth Cymru** – Cafwyd cais am fanylion cysylltu trwy gyfrwng e-bost, ond ar hyn o bryd, nid ydynt yn gweithredu yn ein hardal. Os byddant yn gweithredu yn ein hardal yn y dyfodol, byddem yn croesawu gohebiaeth trwy gyfrwng negeseuon e-bost y pryd hwnnw.
h) **SLCC** – Cafwyd hysbysiad ynghylch y swm i adnewyddu ein haelodaeth, sef £97.00, a gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylid talu'r ffi aelodaeth.
i) **Gwasanaeth Tân ac Achub** – cafwyd Cynllun Gweithredu Blynyddol 2012 – 13.
j) **Anfonebau**
*i)* **Llinos Jones** – Cafwyd anfoneb am y swm o £158 am y gwasanaeth ym mis Tachwedd, a derbyniwyd y dylid ei thalu.
*ii)* **Abacus –** Cafwyd anfoneb am y swm o £243.25 am y gwaith chwarterol o lanhau'r llochesau, a derbyniwyd y dylid ei thalu.
*iii)* **Pro-Fix** – Cafwyd anfoneb am y swm o £268.92 am yr ail gylch torri, bydd Cyng Andrew Howell yn archwilio'r gwaith ac os bydd yn cael ei gymeradwyo, derbyniwyd y dylid ei thalu gyda siec.

c) **Dŵr Cymru Welsh Water** – Letter was received informing that there are no current Sewerage Schemes for Maesymeillion. It may be possible for residents to requisition a sewer but the cost would be between £3,000 and £10,000 per household to join.
d) **Welsh Government** – Fire and Rescue National Framework 2012 Onwards Consultation Document was received. Cllr Andrew Howell will look through these.
e) **Lloyds Bank –** Cheque in the sum of £4.04 was received and paid into Nat West Bank. Confirmation was received that the account has now been closed.
f) **Nat West Bank** will only be open on Tuesdays and Friday's commencing on 20th February. Information to view the balance on line was received with no transactions possible. Cllr Keith Evans proposed the Clerk and Internal Checker should have access; this was seconded by Cllr Andrew Howell and carried.
g) **Mid –Wales Housing** – Request was received for contact by email but, currently do not cover our area. Should they cover the area in the future, we would then welcome email correspondence.
h) **SLCC** – Notice of membership renewal was received in the sum of £97.00, it was unanimously decided to pay the membership fee.
i) **Fire and Rescue Service** - Annual Action Plan 2012 – 13 was received.
j) **Invoices**
*i)* **Llinos Jones** – Invoice was received for November in the sum of £158.00 and passed for payment.
*ii)* **Abacus –** Invoice was received for the quarterly cleaning of shelters in the sum of £243.25 and passed for payment.
*iii)* **Pro-Fix** – Invoice for the second cut was received in the sum of £268.92, Cllr Andrew Howell will check the work and subject to approval, cheque was passed for payment.

**10 Praesept -2012/13 –** Cafwyd Sail y Dreth erbyn hyn, sef 1,182.13. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr hysbysu'r Clerc o unrhyw gynlluniau newydd arfaethedig y dylid eu cadw mewn cof. Nodwyd Gemau Olympaidd 2012 a Balchder Pentrefi.
**11 CCTV –** adroddodd Cyng Andrew Howell nad oedd Pc Dafydd Jones wedi cysylltu ag ef ynghylch yr ymweliad ag Aberystwyth. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau am hyn.
**12 Hysbysfwrdd Pont-siân** – Adroddwyd bod lle digonol ar gael ar wal yr Ysgol ac yn Siop Pont-siân.
**13 Cynllun Iaith Gymraeg –** Gofynnir i ni gadarnhau ein cydymffurfiaeth gyda gofynion y cynllun. Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid cadarnhau cydymffurfiaeth; eiliwyd hyn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i derbyniwyd.
**14 Capel Dewi – Mainc** Bwriedir i hon fod yn rhan o gynllun Balchder Pentrefi.
**15 Glanhau'r Strydoedd yn Llandysul/Glanhau'r Gymuned** – Ni fu unrhyw welliant a chawsom ein hysbysu nad yw Ceredigion yn darparu arwyddion er mwyn atgoffa pobl i beidio taflu ysbwriel gan ei bod yn amlwg na ddylent wneud hynny. Bydd ymholiadau'n cael eu gwneud ynghylch cost arwyddion ysbwriel. Anfonir llythyr dilynol at Miss Bronwen Morgan yn gofyn am adroddiad ynghylch y cyfarfod gyda Cheredigion a gynhaliwyd yn Llandysul, gan ofyn a oes modd i Landysul gael yr un gwasanaeth ag y mae Trefi eraill yn ei gael.
**16 Gwobr y Gymuned** – Unwaith eto, atgoffwyd y Cynghorwyr o'r Wobr.
**17 Gwobr Pobl Ifanc yn y Gymuned –** Meini Prawf. Mae Cyng Andrew Howell yn cynnal trafodaethau gydag Ieuenctid Tysul Youth ac mae cynnydd yn cael ei sicrhau.
**18 Datblygiadau Blodau yn Llandysul** – Dysglau plannu newydd – bydd yr eitem hon yn aros ar yr Agenda.

**10 Precept -2012/13 –** Tax Base has now been received being 1,182.13. Councillors were requested to inform the Clerk of any proposed new schemes to be kept in mind. Olympics 2012 and Balchder Pentrefi were noted.
**11 CCTV –** Cllr Andrew Howell reported that Pc Dafydd Jones has not contacted him re visit to Aberystwyth. Clerk will follow this up.
**12 Pontsian Notice Board** – It was reported that sufficient spaces are available on the School wall and Pontsian Shop.
**13 Welsh Language Scheme –** We are requested to confirm compliance with the requirements of the scheme. It was proposed by Cllr Keith Evans to confirm compliance; this was seconded by Cllr Andrew Howell and carried.
**14 Capel Dewi – Bench** is proposed to be part of the Balchder Prentrefi scheme.
**15 Street Cleaning at Llandysul/Community Clean** – There is no improvement and we have been informed that Ceredigion do not provide signs to remind people not to throw rubbish as it is obvious that they should not. Enquiries to be made re cost of litter signs. Follow up letter to be sent to Miss Bronwen Morgan requesting report of the Ceredigion meeting held at Llandysul and requesting that Llandysul receive the same service that other Towns receive.
**16 Community Award** – Councillors were again reminded of the Award.
**17 Young People in the Community Award**- Criteria. Cllr Andrew Howell is in discussion with Ieuenctid Tysul Youth and progress is being made.
**18 Development of Llandysul Flowers** – New planters – to remain on the Agenda.

**19 Cynllunio**: Cafwyd hysbysiad ynghylch Cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 14 Rhagfyr 2011.
(Fel y Cynghorydd Sir, roedd Cyng Peter Davies yn dymuno cofnodi nad oedd wedi mynegi barn mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'r Ceisiadau Cynllunio, a'i fod wedi gadael y cyfarfod ar yr adeg hon).
Archwiliwyd a chymeradwywyd y cynlluniau canlynol:-
Ffosesgob – Adnewyddu ac addasiadau.
Caniatâd Cynllunio
Dwynant, Pont-siân – Estyniad un llawr
Penrhiwpinne, Capel Dewi – Dau dyrbin gwynt 11kw ar fastiau 18m
Cymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl
Llain gerllaw Tŷ Cerrig, Pont-siân – annedd

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol (dan awdurdod dirprwyedig):-
Heol Llynyfran – 50 Anheddau
Hazevern Court – Amrywio amod 2

**19 Planning**: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 14 December 2011was received.
(Cllr Peter Davies as County Councillor wished to record that he had not expressed an opinion in connection with any of the Planning Applications and left the meeting at this stage).
The following plans were inspected and approved:-
Ffosesgob – Renovation and alterations.
Planning Permission
Dwynant, Pontsian – Single storey extension
Penrhiwpinne - Two 11kw wind turbines on 18m masts
Approval of Reserved Matters
Plot adj Ty Cerrig, Pontsian - dwelling

The following plans were approved (under delegated authority):-
Llynyfran Road – 50 dwellings
Hazevern Court – Variation of condition 2